LANAqu29

# Rheoli’r amgylchedd cynhyrchu dyfrol ar gyfer pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol ar gyfer unrhyw bysgod neu gregynbysgod sydd yn cael eu ffermio. Mae'n ymwneud â datblygiad rhaglenni i fonitro a chynnal yr amgylchedd cynhyrchu mewn unedau cadw.

Mae'n gofyn bod gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle ac yn unol â chodau ymarfer y diwydiant.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau amgylchedd gwaith iach, diogel a chadarn
2. cynllunio'r adnoddau sydd yn ofynnol i fonitro a chynnal yr amgylchedd cynhyrchu
3. pennu paramedrau amgylcheddol y safle dyframaethu
4. datblygu gweithdrefnau i fonitro a chofnodi cyflwr unedau cadw â'r amodau amgylcheddol ynddynt
5. dadansoddi data i gynnal asesiad cywir o'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol
6. datblygu cynllun stocio
7. rheoli rhaglenni cynnal amgylcheddol i gynnal iechyd, lles a diogeledd stoc sydd yn cael ei ffermio
8. sicrhau bod systemau larwm priodol yn cael eu sefydlu i gefnogi'r amgylchedd cynhyrchu
9. datblygu gweithdrefnau brys
10. datblygu gweithdrefnau i reoli hylendid a bioddiogelwch
11. rheoli cofnodion amgylchedd cynhyrchu dyfrol yn unol â'r gofynion cyfreithol a gweithdrefnau'r safle
12. gwerthuso llwyddiant gweithgareddau i reoli'r amgylchedd cynhyrchu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd sydd yn gysylltiedig â'r amgylchedd cynhyrchu
2.
nodweddion a gallu stocio y safle dyframaethu â'r uned gadw
3. y gofynion amgylcheddol y pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
4. y ffordd y mae deddfwriaeth amgylcheddol yn rheoli'r ffordd y mae dyframaethu yn defnyddio'r amgylchedd dyfrol
5. y prosesau a ddefnyddir i fonitro cyflwr unedau cadw
6. y data sydd yn ofynnol i fonitro'r amgylchedd dyfrol
7. y ffordd y gellir gwneud addasiadau i unedau cadw i leihau effaith amodau amgylcheddol niweidiol
8. unedau cadw a dwysedd stocio gorau, yn dibynnu ar y pysgod sydd yn cael eu ffermio
9. y gofynion iechyd a lles ar gyfer pysgod/cregynbysgod a sut mae'r rhain yn cael eu cynnal o fewn yr unedau cadw sydd ar gael
10. y ffordd y gall ffactorau amgylcheddol effeithio ar les pysgod/cregynbysgod
11. sut mae codau ymarfer perthnasol y diwydiant a deddfwriaeth yn dylanwadu ar raglenni cynnal amgylcheddol
12. sut mae gweithdrefnau fferm yn cael eu datblygu i ystyried cryfderau a gwendidau uned gadw
13. sut i leihau effaith argyfyngau ar y pysgod/cregynbysgod
14. deddfwriaeth sydd yn effeithio ar waredu gwastraff, yn cynnwys elifiant o ffermydd
15. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch i'r amgylchedd cynhyrchu
16. y ffactorau sydd yn gallu effeithio ar ynysu, yn cynnwys y ffordd y gellir rheoli gweithredoedd plâu ac ysglyfaethwyr
17. achosion methiant ynysu a physgod yn dianc, yn cynnwys dyluniad fferm
18. y ffordd y mae deddfwriaeth yn rheoli arferion ffermio ac ynysu stoc
19. y fframwaith â'r goblygiadau deddfwriaethol presennol yn dilyn torri rheolau ynysu
20. dulliau a ddefnyddir i werthuso rheolaeth yr amgylchedd cynhyrchu
21. y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer rheoli cofnodion

amgylchedd cynhyrchu

## Cwmpas/Ystod

datblygu **cynllun stocio** i:

1. wneud y defnydd gorau o unedau cadw sydd ar gael
2. cyflawni'r cynhyrchiant gofynnol
3. cynnal anghenion iechyd a lles pysgod neu gregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
4. rheoli rhaglenni **cynnal amgylcheddol** yn cynnwys:
5. gofalu am unedau cadw, ynysu a diogeledd fferm
6. rheoli dwysedd stocio
7. rheoli plâu ac ysglyfaethwyr
8. gwaredu gwastraff
9. rheoli elifiant fferm
10. datblygu **gweithdrefnau brys** i gael eu dilyn os bydd:
11. digwyddiadau llygredd
12. methiant cyfarpar
13. amrywiadau mewn ansawdd dŵr
14. pysgod yn dianc

LANAqu29

Rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol ar gyfer pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; cynhyrchu; dyfrol |